Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Pencadlys yr Heddlu
13 Mawrth 2019

COFNODION

Yn bresennol

Tîm Comisiynydd yr Heddlu

Lee Jones - Cadeirydd (LJ)	Pennaeth Staff (Interim)
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Rheolwr Craffu a Sicrwydd
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Jackie Trow (JT)	Rheolwr Ansawdd a Safonau

Heddlu De Cymru

Y Prif Uwch-arolygydd Phillip Ashby (PA)
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jenny Gilmer (JG)
Y Ditectif Ringyll Russell O'Rourke (RO)
Y Ditectif Gwnstabl Sian O'Shea (SO)
Y Prif Arolygydd John Wainwright (JW)
Dywedodd y Ditectif Brif Arolygydd Mark Vaughan (MV)

Aelodau PALG

Alex Drummond (AD)	Cynghorydd Annibynnol
Emma Tobutt (ET)	Chwaraeon Cymru
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Miranda Evans (ME)	Anabledd Cymru
Paul Dear (PD)	Llywodraeth Cymru
Steve Bartley (SB)	Y Comisiynydd Pobl Hŷn
Steve Warner (SW)	Gofal
Tony Hendrickson (TH)	Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Rebecca Frohwein (RF)	Hafal

1. Trosolwg o PALG a'i ddiben

Dywedodd LJ wrth y grŵp y byddai rhan gyntaf y cyfarfod yn cael ei neilltuo i roi trosolwg i aelodau PALG o rôl y Comisiynydd a diben PALG. Gan fod nifer o aelodau newydd, roedd LJ a HJJ am sicrhau eu bod yn rhoi'r eglurder hwn er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n deall y gydberthynas rhwng PALG a gwaith craffu'r Comisiynydd.

Dywedodd HJJ wrth y grŵp fod PALG wedi cael ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl a'i fod wedi cael ei ystyried yn wreiddiol yn grŵp ar y cyd rhwng y Comisiynydd a Heddlu De Cymru. Roedd y gwaith diweddar i ailstrwythuro'r trefniadau llywodraethu wedi cynnig cyfle i adolygu hyn gan ei bod yn bwysig bod gan y Comisiynydd grŵp annibynnol a oedd yn ei gefnogi i ddwyn yr heddlu i gyfrif. Felly, y bwriad oedd y byddai PALG yn gweithredu fel grŵp a allai gefnogi swyddogaeth craffu a goruchwylio'r Comisiynydd. Nodwyd yr arbenigedd sefydliadol

ymhlith yr aelodau ond cafodd yr aelodau eu hannog i gefnogi a herio pob agwedd ar eitemau agenda PALG a chawsant eu hatgoffa na fyddai'n rhaid iddynt gyfyngu eu hunain i gyfrannu dim ond at faterion yr oedd eu sefydliad yn eu cynrychioli. Dywedodd HJJ fod PALG yn chwarae rôl bwysig wrth helpu'r Comisiynydd i arfer ei ddyletswyddau a bod yr aelodau'n cael eu gwahodd i ddefnyddio eu rôl yn y grŵp er mwyn herio perfformiad Heddlu De Cymru a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella.

Rhoddodd HJJ drosolwg o gyfrifoldebau statudol y Comisiynydd fel y'i hamlinellwyd yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldebau Cymdeithasol 2011. Roedd y rhain yn cynnwys dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth arfer ei swyddogaethau, rhoi llais i'r cyhoedd, yn enwedig dioddefwyr troseddau, a rhoi Cynllun yr Heddlu a Throseddu ar waith.

Cyflwynodd LJ a HJJ y model gweithredol a oedd wedi cael ei ddatblygu fel dogfen gyfeirio er mwyn helpu aelodau gydag awgrymiadau am gwestiynau wrth gael mewnbwn yng nghyfarfodydd PALG. Rhannodd LJ 'ffurflen fonitro adborth a chanlyniadau PALG', a oedd yn nodi'r holl adborth a gafwyd ers i PALG gael ei sefydlu a'r canlyniadau a oedd wedi deillio ohono. Roedd y ffurflen hon yn dangos y gwerth yr oedd PALG eisoes wedi'i ychwanegu.

Yn olaf, pwysleisiodd LJ y byddai PALG ond yn gweithio pe bai'r aelodaeth a'r presenoldeb yn dda. Roedd LJ yn awyddus i sicrhau bod PALG yn cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn sicrhau dull craffu ac ymgysylltu cyfannol. Gofynnodd LJ a oedd yr aelodau'n teimlo y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal ar achlysuron pan oedd disgwyl i nifer isel o bobl fod yn bresennol. Cytunodd aelodau'r grŵp eu bod yn ffafrio canslo'r cyfarfod, gan fod gwerth wrth glywed gan sefydliadau eraill a dysgu ohonynt ac y byddai hyn yn anodd pe bai dim ond ychydig yn bresennol. Cadarnhaodd LJ mai hwn fyddai'r dull gweithredu y cytunwyd arno yn y dyfodol.

2. Cofnodion a chamau gweithredu

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir ac nad oedd unrhyw faterion yn codi. Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a darparwyd y diweddariadau canlynol:

Rhif	Cam Gweithredu	Arweinydd	**Diweddariad**
1	Sesiwn ar y System Adnabod Wynebau Awtomataidd	Hannah Jenkins-Jones	**Cwblhawyd** – Cynhaliwyd y sesiwn ar 4 Chwefror 2019. Yn anffodus, nid oedd unrhyw un o aelodau PALG yn gallu bod yn bresennol.
2	Llunio adroddiad yn cynnwys dadansoddiad demograffig o linellau cyffuriau.	Y Prif Uwch-arolygydd Danny Richards	**Cwblhawyd** – O ganlyniad i'r adborth a gafwyd gan aelodau PALG yn ystod y cyfarfod blaenorol, roedd y Prif Uwch-arolygydd Danny Richards bellach wedi llunio adroddiad ar y dadansoddiad demograffig o unigolion a oedd yn gysylltiedig â llinellau cyffuriau. Rhannwyd hwn ag aelodau PALG i'w drafod yn ystod y cyfarfod ar 13/3/19. Yn ogystal â hyn, roedd y cyflwyniad a oedd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu mewnbwn i asiantaethau partner hefyd wedi cael ei ddiwygio yn dilyn pryderon ynghylch ei neges a thuedd anymwybodol bosibl o ganlyniad i'r

			delweddau a ddefnyddiwyd.
3	Llunio adroddiad terfynol ar y cyflawniadau o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol.	Y Prif Arolygydd John Wainwright	**Parhaus** – Roedd y mater hwn bellach wedi cael ei drosglwyddo i'r Prif Swyddogion gan fod bwlch yn yr adnoddau ar gynhwysiant a chydraddoldeb yn yr heddlu ar hyn o bryd. Roedd y Prif Arolygydd John Wainwright yn aros i gael eglurhad gan y Prif Swyddogion ynghylch pwy oedd yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith hwn.
4	Rhannu'r Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd terfynol	Hannah Jenkins-Jones	**Parhaus** – Mae'r cynllun newydd wedi cael ei ddrafftio ac roedd y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol wedi cael eu hystyried er mwyn llunio'r strategaeth. Byddai'r cynllun yn cael ei ddosbarthu i aelodau PALG ar ôl iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Comisiynydd a'r Prif Swyddogion.
Croesawodd aelodau PALG y cyfle i ailystyried llinellau cyffuriau yn y dyfodol er mwyn ymchwilio ymhellach i'r materion a oedd yn gorgyffwrdd.			

3. Gwaith Rhyw

Roedd y Ditectif Arolygydd Mark Vaughan wedi cael ei wahodd i ddarparu mewnbwn ar ymateb Heddlu De Cymru i waith rhyw yn dilyn cais gan un o aelodau PALG. Dywedodd MV fod Heddlu De Cymru yn diffinio bod yn agored i niwed fel a ganlyn: *"Mae unigolyn yn agored i niwed os na all, o ganlyniad i'w sefyllfa neu ei amgylchiadau, ofalu amdano ef ei hun nac amddiffyn ei hun rhag niwed neu ecsbloetiaeth."* Dywedodd MV y gallai hyn ar unrhyw adeg gynnwys unrhyw unigolyn.

Rhoddodd MV drosolwg byr o hanes gwaith rhyw yn Ne Cymru a chyfeiriodd at y diwydiant rhyw hanesyddol yng Nghaerdydd. Yn hanesyddol, rhoddwyd y pwyslais ar erlyn gweithwyr rhyw, ac o ganlyniad roedd yn rhaid iddynt fynd i'r llys a thalu dirwy. Yn anfwriadol, roedd y dull gweithredu hwn yn annog gweithwyr rhyw i fynd yn ôl i weithio ar y stryd, er mwyn ennill yr hyn a dalwyd ganddynt mewn dirwyon. Newidiodd tactegau'r heddlu dros amser yn sgil cydnabyddiaeth nad oedd Heddlu De Cymru yn mynd i'r afael â'r unigolion a oedd yn cam-fanteisio ar weithwyr rhyw. I ddechrau, nid oedd yr ymateb gweithredol yn ddull strategol hirdymor gan fod y mesurau a roddwyd ar waith yn golygu 'symud y broblem' yn hytrach na'i datrys. Dywedodd MV fod y mwyafrif helaeth o weithwyr rhyw yn fenywod yn hanesyddol, bod ganddynt ddibyniaethau gwahanol a'u bod yn llawer hŷn na'r bobl yr oedd yr heddlu yn ymateb iddynt heddiw. Nid oedd y pwyslais ar fod yn agored i niwed wedi cael ei ystyried ac anaml iawn y byddai gweithwyr rhyw yn rhoi gwybod am drais i Heddlu De Cymru.

Aeth MV ymlaen i drafod y cynnydd yr oedd Heddlu De Cymru wedi dechrau ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd MV wrth y grŵp fod yr heddlu wedi dechrau gweithio gydag elusen Cymru Ddiogelach ar ôl sylweddoli bod angen blaenoriaethu'r ffaith bod gweithwyr rhyw yn agored i niwed, yn hytrach na chymryd camau gorfodi. Nododd MV ei bod yn ymddangos bod y gweithwyr rhyw yn ifancach a bod eu dibyniaethau'n gryfach. Rhoddodd MV drosolwg o brosiect 'Street Life', a oedd yn cynnig cymorth i weithwyr rhyw ar y stryd, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, yn ogystal â chasglu cudd-wybodaeth a'u hatgyfeirio at Heddlu De Cymru neu Ugly Mugs. Roedd Ugly Mugs yn elusen genedlaethol a oedd yn

diogelu gweithwyr rhyw a oedd yn aml yn cael eu targedu gan unigolion peryglus ac a oedd yn amharod i roi gwybod am ddigwyddiadau i'r heddlu. Ei phrif nod oedd rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod. Dywedodd MV fod Ugly Mugs yn rheoli cronfa ddata fawr o gudd-wybodaeth a oedd yn gysylltiedig â gweithwyr rhyw. Gyda chydsyniad, roeddent yn gallu rhannu'r gudd-wybodaeth ddienw hon â'r heddlu.

Rhoddodd MV wybodaeth am y newid o ran dull gweithredu Heddlu De Cymru, o gymryd llwybr troseddol i lwybr ataliol, gan gynnwys trosolwg o lwybr gwrthdyniadol Caerdydd, a oedd yn ymwneud â phroses pum cam ar gyfer y rhai a oedd yn gweithio yn y diwydiant rhyw. Nod y llwybr oedd 'gorfodi' gweithwyr rhyw i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth er mwyn mynd i'r afael â'u dibyniaethau. Amlinellodd MV y dull pum cam a oedd yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn.

Dywedodd MV fod swyddog cyswllt gwaith rhyw nad oedd yn gwisgo lifrai yn gweithio ochr yn ochr â Street Life yng Nghaerdydd. Nod y rôl hon oedd meithrin ymddiriedaeth a chadw golwg ar les gweithwyr rhyw. Roedd hefyd yn gweithredu fel cyswllt â'r gymuned er mwyn mynd i'r afael â phryderon ac addysgu.

Aeth MV ymlaen i roi trosolwg o Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg y Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw, sef fforwm lle roedd gweithwyr rhyw mewn perygl uwch yn cael eu trafod a phecynnau gofal yn cael eu rhoi ar waith. Trafododd MV y mecanweithiau atgyfeirio a oedd ar waith, a oedd yn galluogi dull partneriaeth i roi mecanweithiau diogelu ar waith a nodi sbardunau.

Rhoddodd MV drosolwg o'r deipoleg a oedd yn gysylltiedig â gwaith rhyw, gan wahaniaethu rhwng gweithwyr rhyw ar y stryd, gweithwyr rhyw dan do, gweithwyr rhyw annibynnol a gwaith rhyw ar y rhyngrwyd. Dywedodd MV hefyd fod rhai unigolion wedi dewis gwaith rhyw fel ffordd o fyw, ond bod rhai eraill yn cael eu hecsbloetio a'u masnachu gan giangiau troseddau cyfundrefnol i mewn i'r diwydiant rhyw. Darparodd MV ddealltwriaeth o ba mor gyffredin oedd gwaith rhyw ar y rhyngrwyd a pha mor gymhleth oedd olrhain a nodi lleoliadau lle roedd y gweithgareddau'n digwydd. Cyfeiriodd MV at ymgyrch gudd gan heddlu Caergrawnt, a oedd â'r nod o sicrhau nad oedd gweithwyr rhyw yn ddioddefwyr ecsbloetiaeth a chaethwasiaeth. Dywedodd MV, er bod tîm cudd-wybodaeth Heddlu De Cymru yn monitro gwefannau gwasanaethau oedolion, nad oedd unrhyw gynlluniau ar waith i gynnal ymgyrch debyg.

Dywedodd MV fod sgyrsiau wedi cael eu cynnal yn Senedd y DU yn 2016 ynghylch cyfreithloni puteindra, gan arwain at drafodaeth genedlaethol ynghylch pobl a oedd yn agored i niwed a throseddoldeb gwaith rhyw. Roedd trafodaethau'n dal i gael eu cynnal am hyn ar lefel genedlaethol ac nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud eto. Cyfeiriodd MV at nifer o ganllawiau a dogfennau ymchwil (e.e. ymchwil Beyond the Gaze, canllawiau cenedlaethol ar waith rhyw), y byddai'n barod i'w rhannu â'r aelodau.

Cwestiynau

Holodd JJ am y llwybr gwrthdyniadol pum cam a gofynnodd sut y byddai'n gymwys pe na bai gan weithiwr rhyw ddibyniaeth. Dywedodd MV mai'r prif amcan oedd i'r gweithiwr rhyw gael cymorth ni waeth beth fo'r broblem. Gallai hyn gynnwys tai, cyllid, ac ati.

Yn dilyn y trosolwg o National Ugly Mugs, roedd AD am egluro bod y gronfa ddata genedlaethol y cyfeiriwyd ati yn cynnwys rhestr o droseddwyr yn hytrach na gweithwyr rhyw. Roedd AD hefyd am wahaniaethu'n glir rhwng gweithwyr rhyw ar y stryd a gweithwyr rhyw, gan ei bod yn bwysig nodi bod grwpiau annibynnol a rhydd a oedd yn dewis gwaith rhyw fel gyrfa. Mynegodd AD bryder na fyddai pobl yn rhoi gwybod am drosedd yn eu herbyn rhag

ofn y byddent yn cael rhybuddiad a allai effeithio ar eu cyfle i gael gyrfa yn y dyfodol (yn enwedig yn achos myfyrwyr).

Gofynnodd PD a oedd data ar gael i gynnig dadansoddiad o niferoedd, graddau a demograffeg. Dywedodd MV nad oedd y setiau data ar gael ar hyn o bryd, ond y byddent yn casglu'r dystiolaeth hon yn y dyfodol o ganlyniad i'r cyfleoedd i ymgysylltu a oedd yn cael eu harchwilio. Byddai canfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd hefyd yn helpu i ddeall y sefyllfa.

Cytunodd ET y byddai'n fuddiol casglu'r data hyn er mwyn bod mewn sefyllfa i ddeall y tueddiadau a'r achosion a oedd yn dylanwadu ar bobl i weithio yn y diwydiant rhyw. Roedd ET yn teimlo y gellid teilwra proses adnabod ac ymateb pe baem yn deall yr achosion sylfaenol. Cytunodd JJ ac ychwanegodd drwy adnabod y 'grwpiau mewn perygl' a oedd yn debygol o gael eu denu i waith rhyw y gellid dechrau rhoi mesurau adnabod ac atal ar waith.

Trafododd y grŵp y nifer o ffactorau cyfrannol a allai ddylanwadu ar bobl i ddechrau gweithio yn y diwydiant rhyw, megis cyni, iechyd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau. Gallai menywod a oedd yn dioddef cam-drin domestig yr oedd eu partneriaid yn ddibynnol ar sylweddau gael eu gorfodi i weithio yn y diwydiant rhyw er mwyn cyllido dibyniaethau'r troseddwyr. Ychwanegodd AD fod y mater hwn hefyd yn berthnasol i ddynion, gweithwyr rhyw anneuaidd a thrawsryweddol yn hytrach na dim ond menywod.

Ychwanegodd TH y gellid gweld gwaith rhyw fel cyfle mwy dilys i ennill incwm gan fod y stigma a oedd yn gysylltiedig â gwaith rhyw wedi gostwng yn sylweddol. Roedd hyn yn cael eu hyrwyddo gan y ffordd y mae'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol yn portreadu rhywioli.

Tynnodd y grŵp sylw at y ffaith nad oedd neb yn PALG yn cynrychioli sefydliad camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig ac y byddai'n ddefnyddiol ystyried hyn yn y dyfodol. Hefyd, trafododd y grŵp gyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir, a oedd yn destun y trafodaethau hyn. Gan y byddai ymchwil Prifysgol Bryste yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin, cytunwyd i ailystyried yr eitem hon ar yr agenda ar ôl i'r ymchwil gael ei lansio. Awgrymodd HJJ hefyd y gall fod yn werth chweil sefydlu is-grwpiau y tu allan i brif grŵp PALG er mwyn archwilio materion fel hyn yn fanylach.

Diolchodd LJ i bawb am eu cyfraniadau a nododd fod y drafodaeth yn un werth chweil. Fel yr awgrymwyd gan yr aelodau, gofynnodd LJ a fyddai'n bosibl i MV gadarnhau a ellid cael gafael ar unrhyw ddata a'u rhannu â'r grŵp yng nghyfarfod nesaf PALG.

CAM GWEITHREDU: SM i rannu dolenni i'r ddogfen ganllaw ar Waith Rhyw
CAM GWEITHREDU: HJJ i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu is-grwpiau yn y dyfodol lle y bo'n berthnasol.
CAM GWEITHREDU: MV i gael gafael ar y data sydd ar gael ar weithwyr rhyw ledled De Cymru.

4. Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd LJ a oedd gan unrhyw aelodau unrhyw ddiweddariadau yr hoffent eu rhannu â'r grŵp.

Dywedodd SB wrth y grŵp fod y Comisiynydd Pobl Hŷn wedi lansio ymgynghoriad ar ei flaenoriaethau. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, byddai'n lansio strategaeth â'r nod o gael ei chyhoeddi erbyn dechrau mis Ebrill 2019.

Dywedodd TH ei fod wedi cael nifer o alwadau gan ysgolion ynghylch disgyblion a oedd yn ymwneud â grwpiau adain dde bellaf. O ganlyniad roedd gwasanaeth ATAL y Tîm Cymorth

Ieuenctid Ethnig yn cyflawni amrywiaeth eang o ymyriadau mewn ysgolion ynghylch y mater hwn.

Dywedodd SW wrth y grŵp fod Gofal yn cael ei ail-frandio ar hyn o bryd, a fyddai'n cael ei lansio ym mis Mai. Byddai diweddariad arall yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd LJJ a HJJ wrth y grŵp fod rhaglen graffu'r Comisiynydd ar fin dechrau, gyda throseddau casineb fel y prif bwnc cyntaf. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod partneriaid a dioddefwyr yn bwydo'r broses hon a dywedasant y byddent yn cysylltu â'r aelodau er mwyn casglu eu barn ac yn ceisio cyfleoedd i siarad â dioddefwyr troseddau casineb.

Dywedodd SM wrth y grŵp fod y Comisiynydd wrthi'n datblygu ei gynllun ymgysylltu blynyddol a'i fod yn croesawu awgrymiadau gan yr aelodau ynghylch unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu neu gyfleoedd ar gyfer stondinau y gallai tîm y Comisiynydd ymwneud â nhw.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Unigolyn sy'n Gyfrifol
1	Rhannu dolenni i'r ddogfen ganllaw ar Waith Rhyw	Sarah Mahon
2	Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu is-grwpiau yn y dyfodol lle y bo'n berthnasol	Hannah Jenkins-Jones
3	Cael gafael ar y data sydd ar gael ar weithwyr rhyw ledled De Cymru.	Mark Vaughan